**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 15 Hydref 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | A S Lewis |
| C E Lloyd | J A Raynor | M Thomas |
| E J King | A H Stevens | A Pugh |
| C A Holley | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Sarah Lackenby | Prif Swyddog Trawsnewid |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard, C A Holley

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

### 1. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 10 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

### 2. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Medi 2020.

**3. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**4. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**5. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley y cwestiwn canlynol mewn perthynas â Chofnod 12, "Cefnogi Adferiad Economaidd yn Abertawe":

“A wnaiff y Cabinet ychwanegu cyfeiriad at y ffaith bod gwaith Cefnogi Adferiad Economaidd yn Abertawe yn destun craffu parhaus?”

Nododd Arweinydd y Cyngor y byddai'n derbyn y diwygiad ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiwygio'n briodol.

**6. Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2019/20.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyhoeddi Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2019-20. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i gyflawni Amcanion Lles y cyngor a ddisgrifir yn y Cynllun Corfforaethol, ac i fodloni gofynion eraill a nodir mewn canllawiau statudol ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad i'w gyhoeddi.

**7. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1af 2020/21.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro refeniw a chyllidebau cyfalaf 2020/21 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd** :

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau arian a nodir ym mharagraff 2.7 yr adroddiad.

3) Gosod lefel, mewn cyfyngder, o orwariant caniataol o hyd at £10m ar gyfer y flwyddyn, wedi'i ariannu'n llawn drwy dynnu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, i sicrhau bod y gyllideb gyffredinol yn parhau i fod yn gytbwys am y flwyddyn.

4) Ni chaiff unrhyw Swyddog ystyried unrhyw ymrwymiadau gwario pellach hanfodol a rhaid iddo ohirio ac oedi gwariant, lle bynnag y bo modd, i gynnwys a lleihau'r gorwariant tebygol a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn cyn belled ag y bo'n ymarferol, wrth gyflawni blaenoriaethau cytunedig y cyngor a nodir yn y gyllideb gymeradwy.

## 8. Diweddariad Adolygiad Comisiynu Tai.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i weithredu newidiadau i fodel gwasanaeth y Swyddfa Dai Ranbarthol yn dilyn proses ymgynghori statudol â thenantiaid.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Caiff y newidiadau arfaethedig i fodel gwasanaeth y Swyddfa Dai Ranbarthol yn y dyfodol eu cymeradwyo a'u trefnu i'w rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2021.

## 9. Cam 2 Cais Cyllido Covid-19 - Canllawiau Cynllunio ar gyfer y gwasanaethau digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai a cheisiadau Cam 4 y Rhaglen Tai Arloesol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am:

- ➢ Gymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer y cais am gyllid Cam 2 Cynllun Digartrefedd Llywodraeth Cymru.
- ➢ Rhoi gwybod am ganlyniad y ceisiadau.
- ➢ Neilltuo'r cynlluniau i'r rhaglen gyfalaf yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y cyngor.
- ➢ Caniatâd ôl-weithredol ar gyfer Ceisiadau'r Rhaglen Tai Arloesol (IHP4) i gefnogi cynlluniau cyfalaf Cam 2 a thri chais am y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP).

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo prosiectau'r cais am gyllid Cam 2 y Cynllun Digartrefedd a nodir yn adran 3 o'r adroddiad.

2) Cymeradwyo Ceisiadau'r Rhaglen Tai Arloesol (IHP4) i gefnogi cynlluniau cyfalaf Cam 2 a'r tri chais am y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) a nodir yn adran 5 yr adroddiad.

3) Rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Prif Swyddog Cyllid i ymrwymo i unrhyw gytundebau sy'n angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir y prosiectau ac y diogelir buddion y cyngor.

4) Rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid adennill yr holl wariant sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiectau oddi wrth Lywodraeth Cymru.

5) Caiff unrhyw benderfyniadau pellach sy'n berthnasol i'r broses uchod eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau, a chaiff cynlluniau eu nodi a'u cymeradwyo drwy adroddiad blynyddol Cyllideb Cyfalaf y Refeniw Tai 20/21.

## 10. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw | Wendy Bromham |
| 2) | Ysgol Gynradd Dynfant | Y Cyng. Jeff Jones |
| 3) | Ysgol Gynradd Pennard | Y Cyng. Lynda James |
| 4) | Ysgol Gynradd Pen-y-fro | Y Cyng. Jennifer Raynor |
| 5) | Ysgol Gynradd Portmead | Y Cyng. June Burtonshaw |
| 6) | Ysgol Gynradd Waunwen | Hannah Lawson |
| 7) | Ysgol Gyfun Gellifedw | Y Cyng. Ryland Doyle |
| 8) | Ysgol Gyfun Penyrheol | Arron Bevan-John |
| 9) | Ysgol Gyfun Pontarddulais | Alisa Wallis |

## 11. Cefnogi Adferiad Economaidd yn Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad gwybodaeth a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau i gefnogi adferiad economaidd Abertawe yn dilyn pandemig COVID-19.

## 12. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grant Diogelwch Ffyrdd 2020/21.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau dyraniad y grant Diogelwch Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020/21.

**Penderfynwyd**:

1) Cadarnhau dyraniad y grant Diogelwch Ffyrdd o £879,800 a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020/21.

## 13. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau 2020/21.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau'r dyraniad grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020/21.

**Penderfynwyd**:

1) Cadarnhau'r dyraniad grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau o £508,300 a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020/21.

## 14. Rheoli'r Presennol a Llywio'r Dyfodol Cyngor Abertawe - O Adfer i Drawsnewid.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r broses gychwynnol o aildrefnu’r cyngor a'r blaenoriaethau di-oed yn dilyn argyfwng COVID-19, y cynllun tymor hwy o adferiad i drawsnewid a'r fframwaith i ddisodli Strategaeth Abertawe Gynaliadwy gydag Abertawe – Cyflawni Pethau’n Well Gyda'n Gilydd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cytuno ar y cynlluniau a'r blaenoriaethau cychwynnol i gefnogi adferiad sefydliadol, economaidd a chymdeithasol a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

2) Nodi fframwaith Abertawe – Cyflawni Pethau’n Well Gyda'n Gilydd fel a amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad sy'n cael ei ddatblygu i helpu i drawsnewid y cyngor yn y dyfodol.

## 15. Achos Busnes Seilwaith Digidol, Bargen Dinas Bae Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Isadeiledd Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** :

1) Cymeradwyo achos busnes arfaethedig Isadeiledd Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a'r buddsoddiad dilynol mewn Isadeiledd Digidol ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

2) Rhoi awdurdod i'r Prif Swyddog Trawsnewid, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r achos busnes y gallai fod eu hangen i gael cymeradwyaeth ar lefel llywodraethu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.23 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 15 Hydref 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 20 Hydref 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 21 Hydref 2020 |